CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**

Dyddiad y cyfarfod: **17 Gorffennaf 2024**

Teitl: **Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion 2024**

Pwrpas yr adroddiad: **Rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ystyried Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion 2024 a baratowyd gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion**

Y rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:
Y Pwyllgor Craffu hwn yw'r un sydd wedi'i ddynodi i gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Cefndir

Yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, mae dyletswydd statudol ar bob ardal awdurdod lleol i sicrhau bod ganddynt Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn eu hardal. Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion yn un o is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae'r Bartneriaeth yn sicrhau y gall gwahanol wasanaethau gyfrannu at yr amrywiol agweddau ar ddiogelwch cymunedol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Llesiant Lleol.

Rhan bwysig o waith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yw nodi ac archwilio problemau sy'n ein hwynebu heddiw a bygythiadau posibl yn y dyfodol a allai effeithio ar Geredigion.

Y sefyllfa bresennol

Y llynedd, cynhaliodd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Asesiad Strategol ynghylch Trosedd ac Anhrefn fel rhan o'r gwaith oedd angen ei wneud cyn mynd ati i ddatblygu'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol. Roedd dwy elfen i'r gwaith hwn:

- Ymarfer ymgysylltu cynhwysfawr ar ffurf holiadur ar gyfer y cyhoedd
- Dadansoddiad manwl o'r data amlasiantaethol

Dosbarthwyd yr holiadur yn eang ymhlith amrywiol randdeiliaid a pharatowyd adroddiad adborth i grynhoi canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Cyflwynwyd yr holiadur a'r dadansoddiad o'r adborth gerbron y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Medi 2023.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd o'r arolwg cyhoeddus a'r data am droseddau a roddwyd gan Heddlu Dyfed Powys a'r partneriaid eraill, cytunodd y bartneriaeth ar nifer o flaenoriaethau a fyddai'n sylfaen ar gyfer Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion 2024.

Nid yw'r Strategaeth yn disgrifio'r holl weithgareddau arfaethedig y bydd pob un o'r partneriaid yn eu cyflawni i fynd i'r afael â'r bygythiadau. Yn hytrach na gwneud hynny, mae'n darparu strwythur ar gyfer y gwaith hwn gan dynnu sylw at flaenoriaethau allweddol y bartneriaeth dros y tair blynedd nesaf.

Cytunwyd y byddai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn canolbwyntio ar leihau gweithgarwch troseddol gan sicrhau hefyd fod hyn yn ei dro yn arwain at wella hyder y cyhoedd a'r teimlad o ddiogelwch o fewn cymunedau. Cafodd y blaenoriaethau a nodwyd eu rhannu'n ddau gategori:

- Categori 1 – Y blaenoriaethau o ran troseddau

- Categori 2 – Y blaenoriaethau o ran teimlo'n ddiogel

Cytunwyd i ddilyn y trywydd hwn am y gallai'r dulliau a ddefnyddir i gyflawni gwahanol dasgau amrywio gan ddibynnu a ydy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'i phartneriaid yn mynd i'r afael â thueddiadau go iawn o ran troseddau a gaiff eu cefnogi gan y data sydd wedi'i gofnodi am droseddau (nad yw'r cyhoedd o reidrwydd yn eu gweld) neu a ydynt yn mynd i'r afael â phryderon y gymuned o ran ofn troseddau / teimlo'n ddiogel.

O edrych ar yr ystadegau, nid oedd yr hyn oedd wedi'i gynnwys yn y ffigurau trosedd bob amser yn cyd-fynd â'r materion yr oedd cymunedau ar lawr gwlad yn poeni amdanynt fwyaf.
Nododd 61% o'r bobl a ymatebodd i'r Arolwg Llesiant mai'r hyn yr oeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned oedd y ffaith bod modd iddynt deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Bydd sicrhau tawelwch meddwl i'r cyhoedd yn rhan hanfodol o waith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn y dyfodol.

Categori 1: Troseddau – Blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol

1. Troseddau rhyw
2. Trais yn erbyn menywod a merched
3. Cyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon
4. Cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu

Categori 2: Teimlo'n Ddiogel - Blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol

1. Bwrgleriaeth
2. Twyll / troseddau seiber ar-lein a Galwadau Diwahoddiad
3. Difrod Troseddol
4. Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol
5. Presenoldeb amlwg gan yr heddlu

Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd yn agos â Chynllun Cyflawni Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer 2021-2025 a Strategaeth Reoli Heddlu Dyfed Powys ar gyfer 2023-2024 gan eu bod yn blaenoriaethu Cam-drin Domestig, Trais a Throseddau Rhyw a Chyffuriau Anghyfreithlon.
Mae hyn oll yn rhoi hyder ychwanegol i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol bod sylw yn cael ei roi i'r blaenoriaethau iawn.

Datblygwyd nifer o Amcanion yn ystod gweithdai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a nodwyd meysydd penodol o waith y byddai modd eu cyflawni i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau ym mhob categori.

Mae strwythur cyflawni ar waith sy'n cynnwys pedwar is-grŵp thematig sy'n gyrru'r gwaith o gyflawni'r Amcanion hyn. Mae'r mwy o fanylion i'w gweld yn y strategaeth atodedig (Atodiad 1).

Cyflwynwyd Strategaeth Troseddau Ceredigion i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mawrth 2024 ac mae'r daflen 'Ein Cynllun yn Gryno ' hefyd wedi ei pharatoi (Atodiad 2). Mae'r ddwy ddogfen ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac maent hefyd ar gael ar ffurf fersiynau hawdd eu deall.

Ar ôl i'r Pwyllgor Craffu ystyried y Strategaeth, bydd trefniadau yn cael eu gwneud i gyhoeddi'r Strategaeth ar wefan Ceredigion.

<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>
A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?
Os naddo, nodwch pam.
Nid ydyw wedi'i gwblhau gan nad yw'r adroddiad yn cynnig newid mewn Polisi na Gwasanaeth.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Hirdymor:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:
Integreiddio:

<u>Argymhelliad:</u>

i. Nodi cynnwys Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion 2024 a'r daflen 'Ein Cynllun yn Gryno'

Rhesymau dros y penderfyniad:
Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol

Enw Cyswllt: Timothy Bray

Swydd: Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Posibl

Dyddiad yr adroddiad: 20 Mai 2024

Atodiadau

Atodiad 1

Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion

Atodiad 2

'Ein Cynllun yn Gryno' – Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion